# DINAS A SIR ABERTAWE

## COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR CYNGHORI'R CABINET – GWASANAETHAU CORFFORAETHOL

## A GYNHALIWYD YN YSTAFELL BWYLLGOR 5, NEUADD Y DDINAS, ABERTAWE DYDD MERCHER, 26 HYDREF 2016 AM 4.00 PM

**YN BRESENNOL**: Bu'r cynghorydd J A Hale (Is-gadeirydd) yn llywyddu

| **Y Cynghorydd** | **Y Cynghorydd** | **Y Cynghorydd** |
|---|---|---|
| T J Hennegan | Y V Jardine | M Thomas |

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| Sherill Hopkins | Swyddog Datblygu Polisi Cydraddoldeb |
| Phil Couch | Swyddog Datblygu Polisi Cydraddoldeb |
| Jeremy Parkhouse | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): E T Kirchner a/ac L V Walton

28 **DATGELIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL A RHAGFARNOL.**

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

29 **COFNODION.**

**PENDERFYNWYD** cytuno bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Medi 2016 yn gofnod cywir.

30 **CYFLWYNIAD - ADRODDIAD DIWEDDARU AR GYDRADDOLDEB/YR IAITH GYMRAEG.**

Rhoddwyd cyflwyniadau gan Sherill Hopkins a Phil Couch, Swyddogion Datblygu Polisi Cydraddoldeb, ar y diweddaraf am gydraddoldeb a Safonau'r Gymraeg yn eu trefn.

Rhoddwyd yr wybodaeth fanwl, ddiweddaraf gan Phil Couch ar Safonau'r Gymraeg. Nododd y pethau canlynol:

- Mesur y Gymraeg (Cymru) (2011)
- Yr hen system a oedd yn cynnwys Cynlluniau'r Iaith Gymraeg o'i chymharu â Safonau newydd y Gymraeg a chostau posib methu cydymffurfio
- Amserlen, gan gynnwys rheoliadau, hysbysiad cydymffurfio a dyddiadau gweithredu
- Egwyddorion y Safonau
- Y Safonau

- Cynnydd
- Cwynion
- Problemau
- Pryderon
- Y Dyfodol

Gofynnodd yr aelodau gwestiynau i'r swyddog a ymatebodd yn briodol. Cafwyd trafodaeth am y gofynion gwahanol ar staff ac ymgynghori â'r cyhoedd; defnydd/gwelededd cyffredinol y Gymraeg ers cyflwyno'r Safonau; meysydd o bryder yn yr awdurdod a sut roedd y rhain yn cael eu datrys.

Rhoddwyd cyflwyniad manwl a llawn gwybodaeth gan Sherill Hopkins ar y diweddaraf am gydraddoldeb. Nododd y pethau canlynol: -

- Cynllun Cydraddoldeb Strategol
- Adroddiad Adolygu Cydraddoldeb ac Amrywiaeth
- Asesiadau Effaith Cydraddoldeb
- Cynnwys Cydraddoldeb
- Edrych i'r Dyfodol……
- Y diweddaraf am gydraddoldeb

Gofynnodd yr aelodau gwestiynau i'r swyddog a ymatebodd yn briodol. Cafwyd trafodaethau am gydraddoldeb/tegwch yn y broses gwneud penderfyniadau; Asesiadau Effaith Cydraddoldeb; ac arfer cydraddoldeb da o fewn yr awdurdod.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Swyddogion am eu cyflwyniad addysgiadol.

**PENDERFYNWYD**:

1) Nodi cynnwys y cyflwyniad llafar;
2) Adroddiadau i'w cyflwyno yng nghyfarfod o'r pwyllgor yn y dyfodol.

31 **GWEITHWYR ASIANTAETHAU. (LLAFAR)**

Dywedodd y Cadeirydd wrth y pwyllgor yr ysgrifennwyd at Aelodau'r Cabinet Amgylchedd a Thrafnidiaeth a Thrawsnewid a Pherfformiad o ran barn y pwyllgor ar weithwyr asiantaethau ac roedd yn aros am benderfyniad.

32 **RHAGLEN WAITH 2016/2017.**

Cyflwynodd y Cadeirydd gynllun gwaith wedi'i ddiweddaru ar gyfer 2016-2017.

**PENDERFYNWYD** nodi cynnwys yr adroddiad.

Daeth y cyfarfod I ben am 5.03 pm

**CADEIRYDD**